# COVID-19 Update: 4th June

Here is tonight's COVID-19 update from Cardiff Council, covering: a reminder of the areas having a garden waste collection this coming Saturday; the planning that is underway to restart education in Cardiff; and Cardiff's response to COVID-19 in numbers.

**Garden waste collection areas this coming Saturday**

The areas of Cardiff that have their waste collected on a **Monday** will have a garden waste collection this coming **Saturday, 6th June**.

The one-off garden waste collections continue into June and the first week of July, so that residents are able to dispose of their grass cuttings, small twigs and branches, leaves, and plant and flower cuttings.

These are the only waste types which should be put in your green wheelie bin or reusable bags.

Residents are being reminded that they should only put out garden waste for collection in their green wheelie bin or their reusable garden sacks.

Any additional garden waste, which is put in any other container, including plastic bags, will not be collected.

If incorrect items are placed in the green bin or the re-usable sacks, a pink sticker will be placed on the container to notify the resident that incorrect items have been put out for collection and the waste will not be collected.

- If your collection day is usually on a Monday, your garden waste will be collected on Saturday, June 6th.
- If your collection day is usually on a Tuesday, your green garden waste will be collected Saturday June 13th.
- If your collection day is usually on a Wednesday, your green garden waste will be collected Saturday June 20th.
- If your collection day is usually on a Thursday, your green garden waste will be collected Saturday June 27th.
- The last one-off collection will take place on July 4th for residents that usually have their waste collected on a Friday.

The following information shows when these additional collections will take place in each ward in the city.

**Saturday June 6th** – Creigiau/St Fagans, Radyr/Morganstown, Fairwater; Pentyrch, Tongwynlais, Ely and Caerau

**Saturday June 13th** – Canton, Llandaff North, Llandaff, Velindre, Butetown, Grangetown and Riverside

**Saturday June 20th**– Cyncoed, Pentwyn, Plasnewydd, Gabalfa, Cathays and Penylan

**Saturday June 27th** – Pontprennau/Old St Mellons, Trowbridge, Llanrumney, Adamsdown, Rumney and Splott

**Saturday July 4th**– Rhiwbina, Llanishen, Lisvane, Heath and Whitchurch.




## Restart planning in Education

Following Welsh Government's announcement yesterday (June 3, 2020) that schools will reopen from Monday 29, June, the Council is undertaking careful planning around a series of measures which aim to respond to the challenges and issues relating to schools and other education providers, moving out of lockdown.

Cardiff's Restart Planning report details how schools could operate following lockdown sets out a series of processes and procedures which will aim to support schools, specifically so that they can ensure the safety of staff, pupils and parents and reduce the spread of the virus by operating in physically distanced environments.

Subject to Welsh Government operational guidance which is to be issued to schools next week and alongside scientific evidence and consultation with key partners, Council measures will include:

- New health & safety procedures to include space capacity assessments and risk assessments to establish volume, appropriate furniture lay-out, movement flows and external spaces.

- Hygiene and cleaning to establish a regime for hand washing, contact point cleaning and deep cleaning of school spaces.

- Workforce capacity assessments to ensure adequate staffing and staff preparation and support to - identify and respond to the needs of staff including virtual health & safety training

- Identifying equipment and additional resources such as PPE and when it is required based on clear and informed advice

- Additional support for pupils and school staff around health & well-being, for example issues around family trauma as well as mental health issues relating to isolation

- Widening of pavements and pathways at some school sites to facilitate social distancing and prevent the need for vulnerable road users to step into the road

- Introduction of temporary 20mph limits on roads around schools where possible and consider temporary road closures at drop-off and pick up times

Cabinet Member for Education, Employment and Skills, Cllr Sarah Merry said: "Many children across the city will be missing their friends, teachers and the routine which school provides. I also know that although many families are struggling with working from home and home educating, there will be parents and staff who have concerns about children returning to school and we will be working to address that."

You can read the full story here:
https://www.cardiffnewsroom.co.uk/releases/c25/24012.html

**COVID-19 Infographic 5: Cardiff Council response in numbers**

Over the course of the COVID-19 crisis, we have been producing a series of infographics, capturing Cardiff Council's response in numbers. Here is the latest of these infographics.

It captures everything from the amount of PPE delivered, to the thousands of hours provided in domiciliary care each week; the hundreds of food parcels delivered; the millions distributed in business support; the thousands of child care hours provided every week in our schools; the tens of thousands of tonnes of waste collected.

The list goes on, but you can see all the numbers for yourself:

#WorkingForCardiff #WorkingTogether #WorkingForYou

# In Numbers: Cardiff Council Responding To The Covid-19 Crisis

**24,120**
HOURS OF CHILDCARE A WEEK IN OUR SCHOOL HUBS

**5,290**
FOOD PARCELS DELIVERED

**12,725**
CALLS TO THE COUNCIL ADVICE LINE (029 2087 1071)

**1,617**
PROACTIVE COMMUNICATIONS SENT

**9,512**
SOCIAL MEDIA REPLIES SENT

**31K HOURS**
OF DOMICILIARY CARE PROVIDED EACH WEEK

**3,627,267**
ITEMS OF PPE DELIVERED

**£61M**
DISTRIBUTED IN BUSINESS GRANTS

**5,585**
ITEMS OF TECH ISSUED TO SCHOOL STUDENTS

**457,759**
VISITS TO THE COVID-19 WEBPAGE

**25,632**
TONNES OF WASTE COLLECTED

**12,168**
CHATS WITH BOBI
www.cardiff.gov.uk/chatbot



*Figures collected on 2nd June 2020*

UCHELGAIS PRIFDDINAS
CAPITAL AMBITION

CARDIFF
CAERDYDD

## Diweddariad COVID-19: 4 Mehefin

Dyma ddiweddariad COVID-19 Cyngor Caerdydd, sy'n cynnwys: yr ardaloedd sy'n cael casgliadau gwastraff gardd dydd Sadwrn yma; cynllunio ailddechrau ym maes addysg Caerdydd; a COVID-19, ymateb Cyngor Caerdydd mewn rhifau.

**Yr ardaloedd sy'n cael casgliadau gwastraff gardd dydd Sadwrn yma**

Bydd yr ardaloedd yng Nghaerdydd y mae eu gwastraff yn cael ei gasglu ar **Ddydd Llun** yn cael casgliad gwastraff gardd **ddydd Sadwrn yma, 6 Mehefin**.

Bydd y casgliadau gwastraff gardd untro yn parhau yn ystod mis Mehefin a wythnos gyntaf mis Gorffennaf, fel y gall preswylwyr gael gwared ar eu toriadau glaswellt, brigau a changhennau bach, dail, a thoriadau planhigion a blodau.

Dyma’r unig fathau o wastraff y dylid eu rhoi yn eich bin olwynion gwyrdd neu eich bagiau amldro.

Hoffem atgoffa preswylwyr y dylent roi gwastraff gardd allan i’w gasglu yn eu biniau olwynion gwyrdd neu eu sachau gardd amldro yn unig.

Ni fydd unrhyw wastraff gardd ychwanegol a roddir mewn unrhyw gynhwysydd arall, gan gynnwys bagiau plastig, yn cael ei gasglu.

Os rhoddir eitemau anghywir yn y bin gwyrdd neu’r sachau amldro, caiff sticer pinc ei roi ar y cynhwysydd i hysbysu’r preswylydd bod eitemau anghywir wedi eu rhoi allan i’w casglu ac ni chaiff y gwastraff ei gasglu.

- Os yw eich diwrnod casglu arferol ar ddydd Llun, caiff eich gwastraff gardd ei gasglu ddydd Sadwrn, 6 Mehefin.
- Os yw eich diwrnod casglu arferol ar ddydd Mawrth, caiff eich gwastraff gardd gwyrdd ei gasglu ddydd Sadwrn, 13 Mehefin.
- Os yw eich diwrnod casglu arferol ar ddydd Mercher, caiff eich gwastraff gardd gwyrdd ei gasglu ddydd Sadwrn, 20 Mehefin.
- Os yw eich diwrnod casglu arferol ar ddydd Iau, caiff eich gwastraff gardd gwyrdd ei gasglu ddydd Sadwrn, 27 Mehefin.
- Bydd y casgliad untro olaf ar 4 Gorffennaf ar gyfer preswylwyr sydd fel arfer yn cael casgliadau gwastraff ar ddydd Gwener.

Mae'r wybodaeth ganlynol yn dangos pryd y bydd y casgliadau ychwanegol hyn yn digwydd ym mhob ward yn y ddinas.

**Dydd Sadwrn 6 Mehefin -** Creigiau/Sain Ffagan, Radur/Pentre Poeth, y Tyllgoed, Pentyrch, Tongwynlais, Trelái a Chaerau

**Dydd Sadwrn 13 Mehefin** - Treganna, Ystum Taf, Llandaf, Felindre, Butetown, Grangetown a Glan-yr-afon

**Dydd Sadwrn 20 Mehefin -** Cyncoed, Pentwyn, Plasnewydd, Gabalfa, Cathays a Phen-y-lan

**Dydd Sadwrn 27 Mehefin -** Pontprennau/Pentref Llaneirwg, Trowbridge, Llanrhymni, Adamsdown, Tredelerch a Sblot

**Dydd Sadwrn 4 Gorffennaf -** Rhiwbeina, Llanisien, Llys-faen, y Mynydd Bychan a'r Eglwys Newydd




**Cynllunio Ailddechrau ym maes Addysg**

Yn dilyn cyhoeddiad Llywodraeth Cymru ddoe (3 Mehefin, 2020) y bydd ysgolion yn ailagor o ddydd Llun 29 Mehefin, mae'r Cyngor yn ymgymryd â gwaith cynllunio gofalus i lunio cyfres o fesurau sydd â'r nod o ymateb i'r heriau a'r materion sy'n ymwneud ag ysgolion a darparwyr addysg eraill, yn symud allan o'r cyfnod cloi.

Mae adroddiad Cynllunio Ailgychwyn Caerdydd yn manylu ar sut gallai ysgolion weithredu yn dilyn y cyfnod cloi gan nodi cyfres o weithdrefnau a fydd â'r nod o gefnogi ysgolion, yn benodol i allu sicrhau diogelwch staff, disgyblion a rhieni a lleihau lledaeniad y feirws drwy weithredu mewn amgylchedd ymbellhau cymdeithasol.

Yn amodol ar ganllawiau gweithredol Llywodraeth Cymru a gaiff eu cyhoeddi i ysgolion yr wythnos nesaf, a law yn llaw â thystiolaeth wyddonol ac ymgynghoriad â phartneriaid allweddol, bydd mesurau'r Cyngor yn cynnwys:

- Gweithdrefnau iechyd a diogelwch newydd a fydd yn cynnwys asesiadau capasiti gofod ac asesiadau risg i nodi cyfaint, gosodiad celfi yn briodol, symud y llif a mannau allanol.

- Hylendid a glanhau i bennu trefn golchi dwylo, glanhau pwyntiau cyswllt a glanhau mannau ysgol yn drylwyr.

- Asesiadau capasiti gweithlu i sicrhau staffio priodol a pharatoi a chefnogi staff - i nodi ac ymateb i anghenion staff gan gynnwys hyfforddiant iechyd a diogelwch rhithiwr.

- Nodi cyfarpar ac adnoddau ychwanegol megis cyfarpar diogelu personol a phryd y bydd yn ofynnol ar sail cyngor clir yn seiliedig ar wybodaeth.

- Cymorth ychwanegol i ddisgyblion a staff ysgol ynghylch iechyd a lles, er enghraifft problemau perthnasol i drawma yn y teulu yn ogystal â materion yn ymwneud ag ynysu.

- Estyn palmentydd a llwybrau ar rai safleoedd ysgol i hwyluso ymbellhau cymdeithasol ac atal yr angen i ddefnyddwyr y ffordd sy'n agored i niwed gamu ar y ffordd.

- Cyflwyno cyfyngiadau 20mya dros dro ar ffyrdd o gwmpas ysgolion lle bo'n bosib ac ystyried cau ffyrdd dros dro yn ystod adegau gollwng a chodi plant.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Addysg, Cyflogaeth a Sgiliau, y Cynghorydd Sarah Merry: "Bydd llawer o blant ledled y ddinas yn gweld eisiau eu ffrindiau, eu hathrawon a'r drefn y mae'r ysgol yn ei chynnig. Rwy'n gwybod hefyd bod llawer o deuluoedd yn cael trafferthion yn gweithio o gartref ac yn addysgu gartref, bydd rhai rhieni a staff yn pryderu am blant yn dychwelyd i'r ysgol a byddwn ni'n gweithio i ddatrys hynny."

Darllenwch fwy yma:
https://www.cardiffnewsroom.co.uk/releases/c25/24013.html

**Ffeithlun COVID-19 5: Ymateb Cyngor Caerdydd mewn rhifau**

Dros gyfnod argyfwng COVID-19, rydym wedi bod yn cynhyrchu cyfres o ffeithluniau, gan nodi ymateb Cyngor Caerdydd mewn rhifau. Dyma'r diweddaraf o'r ffeithluniau hyn.

Mae'n casglu popeth o niferoedd Cyfarpar Diogelu Personol a gyflenwir, i'r miloedd o oriau a ddarperir mewn gofal cartref bob wythnos; y cannoedd o barseli bwyd a ddarparwyd; y miliynau a ddosbarthwyd mewn cymorth busnes; y miloedd o oriau gofal plant a ddarperir bob wythnos yn ein hysgolion; y miloedd o dunelli o wastraff a gasglwyd.

Mae'r rhestr yn mynd ymlaen, ond gallwch weld yr holl rifau ar eich cyfer chi eich hun:

#GweithioDrosGaerdydd #GweithioGydanGilydd #GweithioDrosochChi

# *Y niferoedd: Ymateb Cyngor Caerdydd i argyfwng COVID-19*

**24,120**
AWR O OFAL PLANT BOB WYTHNOS YN EIN CANOLFANNAU YSGOL

**5,290**
O BARSELI BWYD WEDI EU DOSBARTHU

**12,725**
O ALWADAU I LINELL GYNGHORI'R CYNGOR (029 2087 1071)

**1,617**
GYFATHREBIADAU RHAGWEITHIOL WEDI'U HANFON

**9,512**
O ATEBION WEDI'U HANFON AR Y CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

**31K O ORIAU**
GOFAL CARTREF WEDI'U DARPARU BOB WYTHNOS

**3,627,267**
OFFER DIOGELWCH PERSONOL A DDANFONWYD

**£61M**
WEDI'I DDOSBARTHU MEWN GRANTIAU BUSNES

**5,585**
O EITEMAU TECHNEGOL WEDI EU RHOI I FYFYRWYR YSOL

**457,759**
O YMWELIADAU Â THUDALEN GWE COVID-19

**25,632**
TUNNELL O WASTRAFF WEDI'I GASGLU

**12,168**
O SGYRSIAU Â BOBI
www.caerdydd.gov.uk/SgwrsFot

*Casglwyd y ffigurau ar 2 Mehefin 2020*



UCHELGAIS PRIFDDINAS
CAPITAL AMBITION

CARDIFF
CAERDYDD